Cyfeirnod(au) y Papur

**6959/01**

# Edexcel GCE

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau

Mai 2008

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Ni ddylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr yn gynharach na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

Rhif Log yr Argraffwr
N34754A

N 3 4 7 5 4 A

W850/R6959/57570 1/1/

*Trowch y dudalen*

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2008 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

**Senario**

## Cwmni Adeiladu Green Bay

Sefydlwyd Cwmni Adeiladu Green Bay yn 2003 gan David Green. Roedd David wedi hyfforddi fel pensaer ac mae wedi bod yn cynllunio tai ers 1985. Gydag amser, mae David wedi dechrau pryderu am gynhesu byd-eang ac mae wedi cyflwyno i gynlluniau ei dai agweddau er mwyn sicrhau bod ôl-troed carbon y preswylwyr mor fach â phosibl. Yn anffodus mae'r addasiadau hyn yn tueddu i wneud y tai yn fwy drud i'w cynhyrchu. Nid oedd y cwmni adeiladu yr oedd David yn gweithio iddo ar y pryd yn hoffi'r addasiadau gan eu bod yn golygu llai o elw. O ganlyniad, cafodd David gyfarwyddyd i'w tynnu o'i gynlluniau.

Gan nad oedd yn gallu dod o hyd i gwmni adeiladu i fabwysiadu ei gynlluniau chwyldroadol, penderfynodd David mai'r unig ffordd y byddai ei gynlluniau'n cael eu derbyn oedd petai'n creu ei gwmni adeiladu ei hun. O ganlyniad, crëwyd Cwmni Adeiladu Green Bay.

Ers ei gychwyn mae Cwmni Adeiladu Green Bay wedi creu nifer o ddatblygiadau llwyddiannus. Mae David wedi darganfod y bydd rhai pobl yn talu'n ychwanegol os ydynt o'r farn bod y tŷ yn eco-gyfeillgar ac y byddent yn talu mwy byth pe byddent o'r farn y byddai arbedion o ran tanwydd

Mae David hefyd wedi arloesi'r syniad o stadau tai deallus. Yn y gorffennol, bu 'adeiladau deallus'; fodd bynnag mae David wedi mynd â hyn gam ymhellach ac wedi cysylltu'r holl dai â chyfrifiadur canolog. Mae hyn yn caniatáu i adeiladau rannu cyfleusterau fel paneli solar, tyrbinau gwynt ac adnoddau eraill sy'n cael eu rhannu. Ar yr un pryd, mae'r cyfrifiadur canolog yn monitro agweddau amrywiol ar ddefnydd tanwydd ar gyfer pob un o'r tai. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i gwmni David y gall ef ei defnyddio er mwyn seilio cynlluniau datblygiadau arnynt yn y dyfodol. Mae hefyd yn rhoi manylion i'r perchenogion ar gyfer eu Pecyn Gwybodaeth am Eiddo petaent yn dymuno gwerthu eu heiddo. Mae David eisiau i holl gyfrifiaduron canolog pob datblygiad gael eu cysylltu â'r Pencadlys.

Mae busnes David wedi ehangu mor gyflym fel nad yw'r swyddfeydd un-llawr gyda gwasanaethau (*serviced*) bellach yn ddigon mawr i'w gwmni. Bydd symud i swyddfeydd newydd yn cyd-daro â recriwtio nifer o bersonél. Bydd y swyddfeydd newydd yn Rhydychen (*Oxford*), sydd heb fod yn bell o gartref David.

Bydd gan swyddfeydd newydd David ddau lawr. Ar y llawr uchaf bydd swyddfa David, swyddfeydd penseiri'r cwmni a'r Adran Gyllid. Yn ogystal, bydd swyddfa ystadegydd a fydd yn monitro ac yn cynhyrchu gwybodaeth o gyfrifiaduron pell (*remote*) y stadau tai.

Bydd yr Adran Gyllid yn cynnwys tri chyfrifydd a'u hysgrifenyddes. Bydd gan bob un ohonynt eu cyfrifiadur eu hunain a byddant yn rhannu argraffydd. Bydd hefyd beiriant ffacs a llungopïwr. Bydd gan y ddau bensaer eu cyfrifiadur eu hunain; bydd ganddynt eu hargraffydd eu hunain ond byddant yn rhannu plotydd i argraffu eu cynlluniau. Mae gan David liniadur y bydd yn ei gysylltu â'r rhwydwaith pan fydd ef yn y swyddfeydd.

Caiff y llawr gwaelod ei rannu gan yr Adrannau Gweinyddol a TG. Bydd yr Adran Weinyddol yn cynnwys 15 o weithwyr clerigol sy'n delio â cheisiadau cynllunio a swyddogaethau gweinyddol eraill. Bydd gofyn i bob gweinyddydd gael eu cyfrifiadur eu hunain, a byddant yn rhannu tri argraffydd. Bydd peiriant ffacs a llungopïwr yma hefyd. Mae'r Adran TG yn cynnwys un technegydd TG a fydd â'i gyfrifiadur a'i argraffydd ei hun. Bydd ei swyddfa ef drws nesaf i ystafell y gweinyddwr (*server*) a fydd yn cynnwys yr holl offer arall.

Rydych wedi cael eich cyflogi fel rheolwr/dylunydd rhwydwaith gan Gwmni Adeiladu Green Bay a byddwch yn rhannu swyddfa gyda'r technegydd TG.